



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref:

Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

Tîm Rheoli Tir yn Gynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

17 Gorffennaf 2014

Annwyl Syr/Madam

Ymgynghoriad ar Gynigion Trawsgydymffurfio Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015

Diolch i chi am ein gwahodd i ymateb i'ch ymgynghoriad ar gynigion Trawsgydymffurfio Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015. Rydym wedi adolygu'r ddogfen hon o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru ac wedi coladu'n sylwadau yn y ffurflen ymateb a atodir.

Mae cynhyrchu amaethyddol yn allweddol i bennu ansawdd ein hamgylchedd, boed wedi ei seilio ar dir neu ddŵr. Nid yw llawer o'r arferion ffermio sydd yn effeithio ar ein hamgylchedd yn fanteisiol yn economaidd; mae arferion rheoli gwael yn lleihau hyfywedd busnesau fferm ac yn effeithio ar yr economi wledig ehangach. I'r gwrthwyneb, mae arferion rheoli tir yn gynaliadwy'n fanteisiol yn economaidd, yn cefnogi cymunedau gwledig ac yn sicrhau gwell amgylchedd.

Cyngor ac arweiniad, ynghyd â chyfundrefnau rheoleiddio allweddol megis trawsgydymffurfio, yw'r arfau hanfodol y gallwn ni ac eraill eu defnyddio i'n cynorthwyo i gael canlyniadau amgylcheddol cynaliadwy. Mae'r canlyniadau hyn yn cynnwys y rhai sydd yn bodloni gofynion Gorchmynion Cynefinoedd ac Adar a Fframwaith Dŵr, a chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer ein rhywogaethau, cynefinoedd a safleoedd gwarchoddedig, ac ar gyfer ein cylch gwaith mynediad a hamdden. Drwy gydweithio gyda Llywodraeth Cymru, nod Cyfoeth Naturiol Cymru yw integreiddio cyfundrefnau i wireddu'n dyhead am reoli adnoddau naturiol mewn modd integredig.

Yn gywir

Hazel Drewett
Pennaeth y Grŵp Ecosystemau Daearol